**Carl Sargeant AC / AM**
**Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol**
**Minister for Natural Resources**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref : MA-P/CS/0398/15

Alun Ffred Jones AC
Cadeirydd Pwyllgor yr
Amgylchedd a Chynaliadwyedd
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

3 Tachwedd 2015

Annwyl Alun Ffred,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 6 Hydref ynghylch y gwaith sy'n cael ei wneud ar ein hymrwymiadau morol yng Nghymru. Rwyf wedi ateb eich sylwadau yn y drefn y cawsant eu rhestru.

I egluro, pwrpas y Rhaglen Newid Morol (MTP) yw blaenoriaethu newidiadau pwysig i'r ffordd y mae moroedd Cymru'n cael eu rheoli, a hynny mewn dull cydgysylltiedig, a bydd yn rhedeg tan 2020. Mae cyllideb yr MTP yn cael ei adolygu'n flynyddol fel eu bod yn alinio'n well â'n hymrwymiadau Ewropeaidd a Statudol ac fel ein bod yn gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael i ni.

Yn Tachwedd 2013, cyhoeddwyd Cynllun Gweithredu Strategol y Môr a Physgodfeydd Cymru ac mae Llywodraeth Cymru'n adeiladu ar y nodau sydd wedi'u hamlinellu ynddo; rydym ar y trywydd iawn gyda'r prif fentrau a nodir ynddo. Rydym yn parhau i weithio â'n rhanddeiliaid ac mae fy swyddogion i yn parhau i greu ffyrdd arloesol o gydweithio. Mae'r Bwrdd Llywodraethu Strategol Morol yn parhau i gwrdd yn rheolaidd ac mae'n ddefnyddiol tu hwnt gan fod llawer o wybodaeth yn deillio ohono ac mae'n help mawr ar gyfer datblygu polisïau integredig.

Rydym yn gwneud cyfraniad i ddiogelu bioamrywiaeth trwy ein rhwydwaith sylweddol o ardaloedd morol gwarchodedig. Hefyd, mae bioamrywiaeth yn un o'r 11 elfen sy'n rhaid i ni eu bodloni, o dan Gyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol (MSFD) i gyrraedd Statws Amgylcheddol da. Rydym ar ein ffordd i gyrraedd y targed hwn. I ddangos pa mor bwysig yw bioamrywiaeth i'r amgylchedd forol, rydym hefyd am sefydlu is-grŵp bioamrywiaeth i'r Grŵp Cynghori Strategol Morol Cymru (WMSAG). Mae'r WMSAG yn grŵp eang o randdeiliaid sy'n helpu gyda'r gwaith o roi'r Rhaglen Newid Morol (MTP) ar waith ac i ymgysylltu â sefydliadau morol. Pwrpas yr is-grŵp yw nodi, blaenoriaethu a datblygu mentrau i atal a gwrthdroi colli bioamrywiaeth morol. Ddiwedd y flwyddyn, bydd y Cynllun Adfer Natur yn cael ei gyhoeddi sy'n amlinellu'r ffordd yr ydym yn ymdrin â bioamrywiaeth.

O ran rhoi'r MSFD ar waith, byddaf, erbyn diwedd y flwyddyn, wedi cyhoeddi ymateb y Llywodraeth i'r ymgynghoriad ar y Rhaglen o Fesurau.

Mae'r Datganiad ar gyfer Cyfranogiad y Cyhoedd (SPP) a gafodd ei ddiweddaru'n ddiweddar yn nodi'n glir ein hymrwymiad i gydweithio er mwyn cyflawni'r Cynllun Morol Cenedlaethol ar gyfer Cymru. Mae'r amserlenni wedi'u hamlinellu yn yr SPP. Dyma fydd y tro cyntaf i Gymru gael Cynllun Morol Cenedlaethol i sicrhau bod ein moroedd yn cael eu defnyddio'n gynaliadwy. Pwrpas y sesiynau ymgysylltu â'r cyhoedd sydd ar fin dechrau yw i hybu trafodaethau eang a deallus er mwyn cael adborth ar y polisïau a'r cyfeiriad yr ydym wedi'i amlinellu yn ein cynllun morol drafft cychwynnol. Bydd y gwaith ymgysylltu hwn yn ychwanegu at y gwaith yr ydym eisoes wedi'i wneud ac rwy'n ddiolchgar i'r rhanddeiliaid am roi eu hamser i'n helpu i lunio'r cynllun.

Bydd y cam nesaf pwysig hwn yn golygu bod y cynllun morol drafft y byddaf yn ei roi ar waith wedi elwa ar arbenigeddau ac adborth pobl, busnesau a chymunedau arfordirol sy'n dibynnu ar y môr mewn llawer o ffyrdd. Erbyn mis Tachwedd, byddaf wedi llunio cynllun drafft llawn cychwynnol a bydd fy swyddogion yn cynnal cyfres o sesiynau galw heibio ar hyd a lled Cymru er mwyn dechrau ar y broses ymgysylltu hon.

Rydym wedi gwneud llawer o waith ar gasglu tystiolaeth forol yng Nghymru. Mae'r swyddogion wedi cynnal Ymarfer Cwmpasu Strategol er mwyn casglu tystiolaeth a nodi problemau sydd wedi arwain at gyhoeddi Adroddiad Tystiolaeth Morol Cymru (WMER). Bellach, mae gennym drosolwg o'r dystiolaeth forol sydd ar gael a'i pherthnasedd i Gymru mewn un man. Mae'r Adroddiad yn sylfaen gadarn i ni ddatblygu ein strategaeth tystiolaeth forol. Mae hon ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn y ddolen ganlynol:

Mae asesu ein hardaloedd morol gwarchodedig yn heriol ond yn hanfodol er mwyn i ni allu deall yn llwyr y cyfraniad a wnawn a nodi a oes angen i ni wneud unrhyw waith pellach. Mae Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur a Chyfoeth Naturiol Cymru yn cydweithio ar y prosiect hwn ac maen nhw wedi gwneud gwaith da arno hyd yn hyn. Mae fy swyddogion wedi rhoi'r newyddion diweddaraf i WMSAG ar y gwaith sydd wedi cael ei wneud a'r gobaith yw y bydd y gwaith hwn wedi cael ei gwblhau erbyn diwedd Rhagfyr 2015.

O ran y Parthau Cadwraeth Morol ar y môr, pe byddai'r cyfrifoldebau dros warchod natur yn yr ardaloedd ar y môr yn cael eu trosglwyddo i Weinidogion Cymru, yna byddwn yn ystyried anghenion y rhwydwaith ehangach cyn gwneud unrhyw benderfyniadau ynghylch dynodi unrhyw safleoedd ychwanegol.

O ran y gwaith rydym yn ei wneud gyda physgodfeydd, mae'r drefn flaenoriaethu ar gyfer adolygu'r ddeddfwriaeth wedi cael ei datblygu gyda'r rhanddeiliaid trwy'r Bwrdd Rheoli Pysgodfeydd. Mae llawer o waith wedi cael ei wneud ar gyfres o reoliadau cymhleth iawn. Mae gwaith wedi symud yn ei flaen o ran Gorchymyn i reoleiddio pysgodfeydd cramenogion. Yn dilyn ymgynghori'n helaeth â'r diwydiant yng Nghymru, rydym wedi cyflwyno'r testun deddfwriaethol drafft er mwyn cael sylwadau arno a hynny o dan broses Safonau Technegol yr Undeb Ewropeaidd. Os na chawn ni unrhyw wrthwynebiad gan yr Aelod-wladwriaethau eraill i'r cynlluniau yn ystod y broses hon, fy mwriad yw gosod y Gorchymyn Statudol gerbron y Cynulliad ddiwedd fis Tachwedd yn y gobaith y bydd yn dod i rym ar 1 Chwefror 2016.

Er mwyn gwella ymhellach y ffordd y mae pysgotwyr yn ogystal â'r rheini sy'n prynu pysgod yn cydymffurfio â'r rheolau, rydym wedi bod yn gweithio ag asiantaethau ac wedi cyhoeddi gwybodaeth i dafarndai a bwytai fel eu bod yn deall y cyfrifoldebau sydd ganddyn nhw o ran prynu pysgod. Mae hyn er mwyn ceisio sicrhau bod y pysgod sy'n cyrraedd y plât yn cael eu pysgota'n gyfreithiol; mae hyn yn helpu i ddiogelu cynaliadwyedd stociau a dyfodol

cynhyrchiol i'r diwydiant yng Nghymru. Hefyd, bydd poster yn cael ei gyhoeddi er mwyn dangos yn glir i brynwyr a chynhyrchwyr bod y pysgod y maen nhw'n ei brynu uwchlaw'r maint gofynnol cyfreithiol sy'n rhoi cyfle i bysgod atgenhedlu.

O ran cyllid gan Ewrop, mae fy swyddogion wedi bod yn gweithio gyda gweinyddiaethau eraill yn y Deyrnas Unedig a Chronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop (EMFF). Y sefyllfa yw bod yn rhaid i Raglen Weithredol y DU (OP) – rhaglen sy'n amlinellu sut bydd y gronfa'n cael ei defnyddio ar draws y DU - gael ei chymeradwyo gan y Comisiwn. Ar hyn o bryd, rydym yn aros i gael cymeradwyaeth ffurfiol yn dilyn ei chyflwyno'n ffurfiol yn yr Hydref.

Mae fy swyddogion wedi bod yn gweithio a gweinyddiaethau eraill y Deyrnas Unedig i ddatblygu Strategaeth Forol ar gyfer y Deyrnas Unedig – mae hyn yn un o ofynion Cyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol (MSFD). Mae rhan allweddol o'r gyfarwyddeb hon yn gysylltiedig â sbwriel morol. Er bod y rhaglen arfaethedig o fesurau yn ddigonol i fodloni anghenion y gyfarwyddeb, rwy'n awyddus fodd bynnag i ni wella'r sylfaen dystiolaeth ymhellach fel y gallwn ni ddeall y problemau'n well a nodi unrhyw faterion eraill sy'n rhaid i ni eu hystyried. Mae fy swyddogion yn gweithio gyda'r Gymdeithas Gadwraeth Forol i ddadansoddi eu data gan ganolbwyntio ar nodi'r pwysau y mae'r broblem hon yn ei roi ar arfordir Cymru a'r tueddiadau sy'n bodoli.

Rwy'n gobeithio bydd yr wybodaeth hon yn datrys y pryderon yr ydych wedi'u crybwyll yn eich llythyr ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am y gwaith yr ydym yn ei wneud.

Yn gywir

**Carl Sargeant AC / AM**
Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol
Minister for Natural Resources